# Polisi Ffônau Symudol a Dyfeisiau Electronig

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Diwygiwyd: Mai 2024

Mabwysiadwyd gan llywodraethwyr: Mai 2024

## Rhesymeg

Mae dyfeisiau symudol bellach yn nodwedd o gymdeithas fodern ac mae'r mwyafrif o ddisgyblion ysgol yn berchen ar un. Mae'r cynnydd yn soffistigedigrwydd technoleg dyfais yn cyflwyno nifer o faterion i ysgolion ymateb iddynt:

- Gwerth ariannol uchel nifer o ddyfeisiau
- Integreiddiad camerâu i mewn i ddyfeisiau a all arwain at achosion amddiffyn plant ac amddiffyn data
- Lles ac iechyd meddwl, amser i ffwrdd o sgriniau
- Y potensial i ddefnyddio'r ddyfais ar adegau anaddas gan amharu ar addysg

Nid yw'n realistig i wahardd dyfeisiau o'r ysgol, nac ychwaith yn ymarferol i gasglu dyfeisiau yn y bore a'u dychwelyd ar ddiwedd y dydd. Ein polisi yw caniatáu disgyblion i ddod a dyfais i'r ysgol o dan yr amodau a amlinellir yn y polisi isod.

Mae ymchwil cyfoes yn dangos bod defnydd estynedig o ffonau symudol yn niweidiol, yn cyfyngu ar ddatblygiad sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol ac yn gallu arwain at deimladau o unigedd.

## Polisi

1. Nid yw dyfeisiau i'w defnyddio ar gyfer unrhyw ddiben yn ystod diwrnod ysgol (e.e. ffonio, tecstio, pori'r we, tynnu lluniau/ fideos, defnyddio safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol) gan gynnwys peth cynta'r bore, adeg egwyl a chinio

2. Yn ystod oriau'r ysgol dylid diffodd y ddyfais symudol a'i **gadael o'r golwg.**

3. Os yw disgybl yn torri'r rheolau yma bydd angen i'r disgybl drosglwyddo'r ddyfais i staff i'w chadw ym mhrif swyddfa a'i gadw dan glo tan ddiwedd y dydd. Gall y disgybl ei chasglu ddiwedd y dydd.

4. Os yw disgybl yn gwrthod trosglwyddo'r ddyfais, delir ậ nhw yn yr un modd ag y delir ag unrhyw fater arall o dorri rheolau'r ysgol. (Ataliad ar ôl ysgol)

5. Os bydd disgybl yn parhau i ddefnyddio eu ffôn yn barhaus yna gwahoddir y rhieni i'r ysgol am gyfarfod ac fe fydd y disgybl yn wynebu sancsiwn pellach. (Mi fyddwn yn monitro wythnosol ac edrych ar batrymau hir dymor)

6. Blynyddoedd 12eg a 13eg – Caniateir i ddisgyblion ddefnyddio dyfeisiau symudol yn y Neuadd ac Ystafell Waith y Chweched, ond ni chaniateir eu defnydd ar goridorau, bistro neu mewn gwersi heb ganiatâd aelod staff.

Noder - Mae'r polisi yma yn cynnwys iPods, chwaraewyr MP3, MP4, clustffonau / airpods ac offer trydanol tebyg.

**Absenoldeb Staff / Gwarchod –** Gofynnwn i staff sicrhau fod gwaith sydd wedi ei adael ddim yn cynnwys tasgau sydd angen mynediad i ddyfais personol.

**Argyfyngau -** Os oes angen i ddisgybl gysylltu â rhieni / gwarcheidwad cânt ganiatâd i ddefnyddio ffôn y swyddfa neu drwy ganiatâd aelod o staff i ddefnyddio dyfais personol.

Os oes angen i riant gysylltu â phlentyn ar frys dylent ffonio'r brif swyddfa ac fe fydd y neges yn cael ei throsglwyddo i'r plentyn yn uniongyrchol.

Ni ddylai rhieni / warcheidwaid felly anfon negeseuon testun / ffonio eu plentyn yn yr ysgol, yn ystod oriau ysgol.

**<u>Nid yw'r ysgol yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod neu golled o ddyfeisiau symudol.</u>**

## Eithriadau:

Dylid cofio bod sefyllfaoedd ble mae ffonau yn angenrheidiol i rai plant (clefyd siwgr) er mwyn profi eu gwaed / amgylchiadau teuluol eithriadol / dangos côd talu ar gyfer y gegin / neu o dan reolaeth gadarn o'r defnydd gan athro (gyda chaniatad) Dylid ystyried a gwirio yr eithriadau hyn yn ofalus ymhob sefyllfa

## Camau Gweithredu

Yn sgîl y cynnydd yn nefnydd dyfeisiau symudol/ipods/clustffonau, rydym am fabwysiadu amgylchedd dim ffonau o fewn cymuned yr ysgol. Gweler *Canllaw Cryno* yn Atodiad 1. Er lles addysg a diogelwch pawb dylid **<u>atal y defnydd o ddyfeisiau</u>** yn yr ysgol yn ystod gwersi, ar y coridorau neu ar safle'r ysgol yn gyffredinol. Nid yw hyn yn unigryw i'n hysgol ni ac mae rhesymau diogelwch, yn ogystal â hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn ein harwain i gryfhau'r camau hyn.

Mae pob blwyddyn yn derbyn yr un neges er mwyn sicrhau **<u>cysondeb o flynyddoedd 7-13.</u>**

Caiff y polisi ei atgyfnerthu'n gyson drwy'r athrawon dosbarth, athrawon pwnc yn ogystal â gwasanaethau blwyddyn a gynhelir gan yr Arweinydd Cynnydd a Lles.

### Cam 1

Os yw disgybl yn defnyddio neu yn cario dyfais symudol naill ai mewn gwers, ar y coridor neu ar safle'r ysgol, bydd angen i'r disgybl drosglwyddo'r ddyfais i'r staff fydd yn ei rhoi **<u>mewn amlen gydag enw'r disgybl i'r swyddfa cyn gynted ag sy'n bosib</u>**. Bydd hyn yn cael ei adrodd i rieni drwy lwyfan *Classcharts.*

Caiff y ddyfais ei **chadw yn y swyddfa dan glo, tan ddiwedd** y dydd, pan gaiff y disgybl ei chasglu.

Bydd y swyddfa yn cadw **cofnod o enw'r disgybl, y dyddiad, amser a'r aelod o staff sydd wedi derbyn y ddyfais.** **Cyfrifoldeb y disgybl** yw casglu'r ddyfais ar ddiwedd y dydd.

## Cam 2

Os yw disgybl yn defnyddio dyfais symudol, gan wrthod dilyn cyfarwyddyd yr aelod o staff i drosglwyddo'r ddyfais.  Caiff y digwyddiad ei adrodd I rieni drwy Clascharts a bydd disgybl yn wynebu sancsiwn yn unol â phrotocol ymddygiad yr ysgol. Petai hyn yn ddigwydiad sydd wedi ei ailadrodd mi fydd ataliad ar ôl ysgol yn cael ei drefnu i'r disgybl.

## Cam 3

Os yw'r disgybl yn parhau i ddefnyddio dyfais symudol yn y dyfodol, trydydd gwaith o fewn wythnos neu batrwm hir dymor, gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod y sefyllfa, a chymerir camau disgyblu yn ôl polisi ymddygiad cyffredinol yr ysgol.

**Ni** dderbynnir unrhyw esgus gan y disgyblion wedi esbonio gweithrediad y polisi.

Polisi i fonitro yn achlysurol, ond hefyd i edrych ar batrymau dros gyfnod o amser ac ymateb i'r patrymau yma.

**ATODIAD 1:**

**Canllaw cryno polisi dim ffonau** **Tymor yr Haf 2024**

Canllaw cryno i staff ar gyfer polisi dim ffonau / clustffonau

Os yw athro yn gweld disgybl yn defnyddio ffôn symudol / clustffonau dylid: **gofyn am y ffôn**

**Sefyllfa 1:** Disgybl yn ymateb yn gadarnhaol & trosglwyddo'r ffôn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn am y ffôn | Disgybl yn trosglwyddo ffôn i'r athro | Athro yn cofnodi ar Classcharts *Defnydd o ffôn (-1)* | Trosglwyddo ffôn mewn amlen i'r dderbynfa gyda enw & blwyddyn y disgybl | Disgybl yn casglu ffôn diwedd y dydd |

**Sefyllfa 2:** Disgybl yn ymateb yn gadarnhaol ond yn gwrthod rhoi'r ffôn i'r athro

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn am y ffôn – egluro bod dewis – holi i roi'r ffôn i gadw a pharhau â'r wers. *Osgoi cynydd tensiwn (!)* | Disgybl yn gwrthod trosglwyddo ffôn i'r athro, **ond yn rhoi'r ffôn i gadw** | Athro yn cofnodi ar Classcharts *Defnydd o ffôn a gwrthod trosglwyddo (-2)* | Trosglwyddo wybodaeth i'r AC&Ll perthnasol | Disgybl yn derbyn ataliad ar ôl ysgol |

**Sefyllfa 3:** Disgybl yn gwrthod rhoi'r ffôn i'r athro ac yn parhau i ddefnyddio'r ffôn

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gofyn am y ffôn | Disgybl yn gwrthod trosglwyddo ffôn i'r athro **ac yn parhau ar y ffôn.** | Athro yn galw Cymorth *Galwad Cymorth (-3)* | Trosglwyddo wybodaeth i'r AC&Ll perthnasol | Disgybl yn derbyn ataliad ar ôl ysgol (x2) |

**Sefyllfa 4:** Disgybl yn cyrraedd sefyllfa 3 am yr ail dro: Gwaharddiad mewnol (1/2 dydd)

**Sefyllfa 5:** Disgybl yn cyrraedd sefyllfa 3 am y trydydd tro: Gwaharddiad allanol 1 dydd

---

**Eithriadau:**
Cofiwch mae sefyllfaoedd ble mae ffonau yn angenrheidiol i rai plant (clefyd siwgr) er mwyn profi eu gwaed / amgylchiadau teuluol eithriadol / dangos côd talu ar gyfer y gegin / rheolaeth gadarn o'r defnydd gan athro (gyda chaniatad)

**Chweched Dosbarth:**
Caniatad i ddefnyddio ffôn yn y Neuadd / yst waith ond nid ar goridor nac yn y Bistro